

# THE GRAND FINAL

# Y ROWND DERFYNOL!

Translingual National Competition Pack

Pecyn Cystadlu Cenedlaethol Trawsieithol

GORNEST LYFRAU 2026

# Congratulations on reaching the national round of the Gornest Lyfrau!

## GORNEST LYFRAU is back!

This is your chance to represent your county, **discuss books**, attend an **author session** and **watch your promotional advertisement** on the big screen!
The winning schools will win a special trophy and one of the following:

This year's prizes:

1st prize – £200 worth of books (and bragging rights!)

2nd prize – £150 worth of books

3rd prize – £100 worth of books

GORNEST LYFRAU 2026

Go for it!

# LLONGYFARCHIADAU AR GYRRAEDD ROWND GENEDLAETHOL YR ORNEST LYFRAU!

## Mae'r ORNEST LYFRAU yn ôl!

Dyma eich cyfle i gynrychioli eich sir, **trafod llyfrau**,
mynychu **gweithdy awdur** a **gwylio eich hysbysebion** ar y sgrin fawr!
Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ynghyd ag un o'r gwobrau canlynol:

Gwobrau Gornest Lyfrau 2026:

Gwobr 1af – gwerth £200 mewn llyfrau ac ymweliad awdur (a hawl brolio!)

2il wobr – gwerth £150 mewn llyfrau

3edd wobr – gwerth £100 mewn llyfrau

GORNEST LYFRAU 2026

Ewch amdani!

# HOW IT WORKS

**A maximum of 8 members will need to be selected to attend the national round.**

### Discussion

4 for the discussion group and 4 for the additional challenges

### Writing

Writing a blurb (maximum of 2 members).

### Illustrating

Illustrating a cover (maximum of 2 members).



### Choosing a book

The discussion group is welcome to discuss one or the same book from the county round, or another book from the reading list.

### Scoring

40% of the marks are given for the discussion task, 40% for the promotional advert, 10% for the blurb, and 10% for the book cover.

# SUT MAE'N GWEITHIO

**Bydd angen dewis uchafswm o 8 aelod i fynychu'r rownd genedlaethol**

### Trafod

4 ar gyfer y criw trafod a 4 ar gyfer yr heriau ychwanegol.

### Ysgrifennu

Tasg ysgrifennu (uchafswm o 2 aelod).

### Darlunio

Tasg darlunio (uchafswm o 2 aelod).



### Dewis llyfr

Ar gyfer y rownd genedlaethol mae croeso i'r grŵp drafod drafod un ai'r un llyfr o'r rownd sirol neu lyfr arall o'r rhestr ddarllen.

### Sgorio

Rhoddir 40% am y trafod, 40% o'r marciau am y clip fideo, 10% am y broliant, a 10% am y clawr.

# CHALLENGE 1

## The Discussion

Similar to the discussion task in the county rounds, the main aim of this challenge is to show that the group can discuss the characters, events, themes and messages of the book along with the reading experience.

- The intention is not to prepare / learn a script in advance.
- All members are expected to contribute to the discussion and respond to each other's comments, open-ended questions, and the judge's comments where appropriate.
- There will be **4 members** in each discussion team.
- The discussion session with the judge will last around **8 minutes**; the judge will give a minute's warning before the end of the discussion.

## What will the judge be looking for?

**Information**

- Thorough knowledge of the book's content.
- The ability to delve into the book(s), story, and characters, where appropriate.
- A good understanding of the book's message and themes.
- Refer to wider reading beyond the requirements of the competition books, where appropriate.

**Expressing Opinions**

- Express opinions clearly, giving honest and fair reasons.
- The ability to ask, agree, disagree, answer, and challenge politely where appropriate.
- Listen and build on each other's comments.
- Offer comments that are relevant to other comments.

**Discuss as a Group**

- The ability to discuss independently as a group.
- An equal and balanced contribution from all members of the group.
- A lively discussion.
- Being able to respond to questions that arise from the discussion.



**Language Accuracy and Naturalness**

- Demonstrate good use of vocabulary, expressions and book terminology.

# HER 1

## Y Drafodaeth

Fel y dasg trafod o'r rowndiau rhanbarthol, prif nod yr her hon yw dangos bod y criw yn gallu trafod y cymeriadau, digwyddiadau, themâu a negeseuon y llyfr ynghyd â'r profiad darllen.

- Nid paratoi / dysgu sgript o flaen llaw yw'r bwriad.
- Mae disgwyl i bob aelod gyfrannu i'r drafodaeth ac ymateb i sylwadau ei gilydd ac i gwestiynau penagored a sylwadau'r beirniad lle bo'n briodol.
- Bydd **4 aelod** ym mhob tîm trafod.
- Bydd y sesiwn drafod gyda'r beirniad yn para tua **6–8 munud**, a bydd y beirniad yn rhoi munud o rybudd cyn diwedd y drafodaeth.

## Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

### Gwybodaeth

- Gwybodaeth drylwyr am gynnwys y llyfr.
- Y gallu i fynd dan groen y llyfrau, y stori a'r cymeriadau, lle mae hynny'n briodol.
- Dealltwriaeth dda o neges a themâu'r llyfr.
- Cyfeirio at ddarllen ehangach y tu hwnt i ofynion llyfrau'r gystadleuaeth, lle mae hynny'n briodol.

### Mynegi Barn

- Mynegi barn yn glir gan roi rhesymau gonest a theg.
- Y gallu i holi, cytuno, ateb, anghytuno a herio'n gwrtais, lle mae hynny'n briodol.
- Gwrando ac adeiladu ar sylwadau ei gilydd.
- Cynnig sylwadau sy'n berthnasol i sylwadau eraill.

### Trafod fel Grŵp

- Y gallu i drafod yn annibynnol fel grŵp.
- Cyfraniad cyfartal a chytbwys gan bob aelod o'r grŵp.
- Trafod byrlymus.
- Gallu ymateb i gwestiynau sy'n codi o'r drafodaeth.

### Cywirdeb Iaith a Naturioldeb

- Defnyddio geirfa, ymadroddion a chystrawennau Cymraeg.




## Examples of discussion points

- Was there anything in particular that you enjoyed or did not enjoy about / in the book?
- Which character did you find most interesting? In what way? Why?
- What caught your attention about / in the book?
- Have you read any books like this before?
- What would you like to change about the book?
- Who do you think this book is suitable for?
- How would you describe this book to someone your age? Would you recommend it?
- If you could meet one character from the book, who would you like to meet?  Why?
- What have you learned by reading this book?



- What questions did you have after reading this book? Have you found answers to those questions? What were the answers?
- How do you think reading non-fiction books is different from reading fiction books?
- What do you think is the most important thing about this book?




## Enghreifftiau o bwyntiau i'w trafod

- Oedd yna unrhyw beth yn benodol y gwnaethoch chi ei fwynhau neu ddim yn mwynhau am / yn y llyfr?
- Pa gymeriad oedd fwyaf diddorol i chi? Ym mha ffordd? Pam hynny?
- Beth ddaliodd eich sylw chi am / yn y llyfr?
- Ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau tebyg i hwn?
- Beth hoffech ei newid am y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr hwn yn addas?
- Sut fasech chi'n disgrifio'r llyfr hwn i rywun yr un oedran â chi? Fasech chi'n argymell y llyfr hwn i blant eraill?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag un cymeriad o'r llyfr, â phwy hoffech chi gwrdd? Pam hynny?



- Beth ydych chi wedi ei ddysgu trwy ddarllen y llyfr hwn?
- Pa gwestiynau oedd gennych ar ôl darllen y llyfr hwn? Ydych chi wedi dod o hyd i atebion i'r cwestiynau hynny? Beth oedd yr atebion?
- Sut ydych chi'n credu bod darllen llyfrau ffeithiol yn wahanol i ddarllen ffuglen?
- Beth oedd eich argraffiadau cyntaf chi o'r llyfr?
- Beth ydych chi'n credu yw'r peth pwysicaf am y llyfr yma?



# CHALLENGE 2


## Design a Book Cover

The Books Council will provide learners with a brief on the day and provide resources. This task will last **45 minutes**.

Here is an example of the **Criteria** that will be available at the national round.

**We want you to create a brand new book cover for this book which ...**

- conveys the story but without revealing too much – just enough to draw readers' attention!
- is attractive and colourful
- is creative
- highlights at least one important theme or message from the book
- shows original ideas



# CHALLENGE 3

## Write a Blurb

The Books Council will provide a brief for learners on the day. A copy of the book, as well as resources such as paper and pens, will be provided. Writing resources and dictionaries will also be available. This task will last **45 minutes**.

Here is an example of the **Criteria** that will be available at the national round.

**We want you to write a new blurb for this book which ...**

- gives a good idea of the book without revealing too much – enough to draw readers' attention!
- includes varied and interesting vocabulary
- highlights at least one important theme or message from the book
- is no more than 100 words
- encourages readers to pick up the book
- shows creativity and original ideas

## HER 2


### Dylunio Clawr

Bydd y Cyngor Llyfrau yn darparu briff i ddysgwyr ar y diwrnod ac yn darparu offer darlunio. Darperir copi o'r llyfr, yn ogystal ag adnoddau fel papur a phensiliau. Bydd y dasg hon yn para **45 munud**.

Dyma enghraifft o'r **Meini Prawf** a fydd ar gael yn y rownd genedlaethol.

**Rydyn ni eisiau i chi greu clawr newydd i'r llyfr yma …**

- sy'n cyfleu'r stori ond heb ddweud gormod – digon i dynnu sylw'r darllenwyr!
- sy'n ddeniadol a lliwgar
- sy'n greadigol
- sy'n amlygu o leiaf un thema neu neges bwysig o'r llyfr
- sy'n dangos syniadau gwreiddiol



## HER 3

### Ysgrifennu Broliant

Bydd y Cyngor Llyfrau yn darparu briff i ddysgwyr ar y diwrnod. Darperir copi o'r llyfr, yn ogystal ag adnoddau fel papur a beiros. Bydd offer ysgrifennu a geiriaduron ar gael. Bydd y dasg hon yn para **45 munud**.

Dyma enghraifft o'r **Meini Prawf** a fydd ar gael yn y rownd genedlaethol.

**Rydyn ni eisiau i chi ysgrifennu broliant newydd i'r llyfr yma …**

- sy'n rhoi syniad da o'r llyfr heb ddweud gormod – digon i dynnu sylw'r darllenwyr!
- sy'n cynnwys geirfa amrywiol a diddorol
- sy'n amlygu o leiaf un thema neu neges bwysig o'r llyfr
- sydd ddim yn fwy na 100 o eiriau
- sy'n annog darllenwyr i godi'r llyfr

# KEY DATES

Looking for further information?
Contact a Gornest Lyfrau coordinator
by emailing **plant@llyfrau.cymru**

County organisers inform the Books Council of the county results by
**MAY 20**

Schools to confirm their choice of book for the discussion task and send videos via wetransfer to the Books Council by
**JUNE 3**

**JUNE 16**
National round takes place in Aberystwyth.

## Travel Information

Teams will need to arrive at
**THEATR ARAD GOCH**
by 9.30 in the morning.*
Bath Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2NN

*We suggest travelling in two full cars.
There is a car park around the corner of North Road, SY23 2EG.

# DYDDIADAU PWYSIG

Ysgolion i gadarnhau eu dewis o lyfr ar gyfer y dasg trafod rannu eu hysbysebion hyrwyddo dros WeTransfer gyda'r Cyngor Llyfrau erbyn **MEHEFIN 3**

Angen rhagor o wybodaeth?
Cysylltwch â chydlynydd Gornest Lyfrau drwy ebostio **plant@llyfrau.cymru**

Trefnwyr sirol i hysbysebu'r Cyngor Llyfrau o'r canlyniadau sirol erbyn **MAI 20**

## Gwybodaeth Teithio

Bydd angen i'r timau gyrraedd **THEATR ARAD GOCH** erbyn 9.30 y bore.*
Stryd y Baddon, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2NN

*Rydyn ni'n awgrymu teithio mewn dau llond car.
Mae maes parcio rownd y gornel ar Ffordd y Gogledd, SY23 2EG.

**MEHEFIN 16** y rownd derfynol yn digwydd yn Aberystwyth.

# IMPORTANT INFORMATION!


It would be wonderful to play the clips from all the winning schools in a special cinema session for the children to watch on the day.

In order to do so, we kindly ask teachers to arrange with parents or guardians of the children in the clips to fill in and return **CONSENT FORMS**.

**Bring a picnic!**

You are welcome to bring a packed lunch with you to eat at the seaside – but please beware of the cheeky seagulls!

# GWYBODAETH BWYSIG!



Byddai'n wych i chwarae'r clipiau o'r holl ysgolion buddugol mewn sesiwn sinema arbennig, i'r plant mwynhau eu gwylio ar y diwrnod.

Er mwyn gwneud hynny, rydyn ni'n gofyn yn garedig i'r athrawon drefnu gyda rhieni neu warcheidwaid y plant sydd yn y clipiau fideo i lenwi a dychwelyd **FFURFLENNI CANIATÂD** os gwelwch yn dda.

**Picnic ar lan y môr!**

Mae croeso i chi ddod â phecyn bwyd gyda chi i'w fwyta ar lan y môr – ond gwyliwch rhag y gwylanod barus!

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan **Llywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Arranged and coordinated by the Books Council of Wales

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru